**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

5 Tachwedd 2021

Annwyl Delyth

Tribiwnlys y Gymraeg: Adroddiad Blynyddol 2020-21

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd gennym ddydd Llun yr wythnos hon, gwnaethom drafod ein hail adroddiad monitro rheolaidd, lle'r ydym yn ystyried ac yn adolygu pynciau allweddol sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Byddwch yn ymwybodol bod rhai materion sy'n ymwneud â chyfiawnder yn dod o fewn cwmpas ein cyfrifoldebau. Yn sgil hynny, gwnaethom drafod diweddariad a gawsom ar Dribiwnlysoedd Cymru.

Mae adroddiadau blynyddol y rhan fwyaf o Dribiwnlysoedd Cymru ar gyfer 2020/21 bellach wedi'u cyhoeddi. Mae'r adroddiadau'n trafod sut y mae'r tribiwnlysoedd wedi rheoli effaith pandemig y coronafeirws, yn ogystal â nodi gwybodaeth am wariant, gweithrediad a pherfformiad.

O ystyried cylch gwaith eich Pwyllgor chi, gwnaethom gytuno i dynnu eich sylw at yr adroddiad blynyddol diweddaraf gan Dribiwnlys y Gymraeg.

Yn y cyfarfod yr wythnos hon, cawsom dystiolaeth hefyd gan Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ar ei Drydydd Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21, ac rwy'n manteisio ar y cyfle hwn i dynnu eich sylw at yr adroddiad dan sylw.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**